# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Fedi 2023 am 7:10pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Richard Jones Evans, Geraint Evans, Geraint Edwards, Richard C Evans

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Arwel Pierce

2. Datgan diddordeb: Cynghorydd Geraint Edwards - Eitem 11 - buddiant sydd yn rhagfarnu - yn berchen ar dir sydd wrth ymyl y cais cynllunio

3. Derbyn cofnodion 17 Gorffennaf 2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101858 | £210.26 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101859 | £52.40 |
| Marc Cousins | Pafiliwn | 101860 | £602.27 |
| Scrubadub | Pafiliwn | 101861 | £120.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod, heblaw am anfoneb Scrubadub gan nad oedd y gegin, toiled anabl, toiled dynion, toiled merched nag ystafell y dyfarnwr wedi ei lanhau. Yr oedd yn ymddangos mai glanhau llawr y ddwy ystafell newid oedd wedi ei wneud yn unig, gyda'r sinc a thoiledau'r ystafelloedd newid y chwaraewyr heb eu glanhau.

5. Adolygu gwariant o Ebrill 2023 i Medi 2023:

Yr oedd taenlen Excel wedi ei ddarparu yn rhestru'r gwariant a'r gwariant yn erbyn y gyllideb am y flwyddyn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn yr adroddiad.

6. Llywodraeth Cymru - Cais am sylwadau i gofrestru pwmp codi dŵr ger Pentre-Uchaf ym Mryncrug:

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

7. Mabwysiadu Adroddiad Bioamrywiaeth:

Yr oedd y Clerc wedi gneud ymchwil ddesg i adroddiadau bioamrywiaeth cynghorau eraill, gan edrych ar adroddiadau cynghorau trefol sydd yn fwy o faint na Chyngor Cymuned Bryncrug a chynghorau cymunedau o faint tebyg i Fryncrug.

**PENDERFYNIAD:** I lunio polisi erbyn cyfarfod mis nesaf, sef mis Hydref 2023 gan lunio polisi/adroddiad syml er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion.

8. Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd - Ariannu rhaglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd:

Yr oedd yr enghreifftiau isod yn gymwys am gyllid o dan y grant:

- Creu dolydd blodau cynhenid a chynllun rheolaeth
- Coedlannau cynhenid
- Arolygon rhywogaethau
- Perllannau o goed cynhenid Cymreig
- Ail sefydlu terfynau traddodiadol
- Gwella mynediad i gynefinoedd / bioamrywiaeth lleol
- Creu tirweddau / nodweddion er mwyn hybu bioamrywiaeth
- Cynnal tiroedd er budd natur

**PENDERFYNIAD:** I gyflwyno cais am grant er mwyn sefydlu perllan gymunedol o goed afalau/coed ffrwythau.

9. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Ymgynghoriad Cyhoeddus:

**PENDERFYNIAD:** Cynghorwyr i ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolion.

10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Pen-y-Sarn, Bryncrug, LL36 9LF (NP5/55/8E):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad, gan gyflwyno sylw bod y cyngor yn edrych ymlaen at weld y gwaith cerrig wedi ei orffen.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Tir yn Ffordd-y-Felin, Bryncrug, LL36 9PB (NP5/55/60J):

Bu i'r Cynghorydd Geraint Edwards ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu a bu iddo adael yr ystafell.

Adroddodd y Clerc bod llythyr wedi ei dderbyn gan gymdogion y tir dan sylw wedi i'r rhaglen gael ei gyhoeddi. Darllenodd y Cadeirydd y sylwadau ar lafar yn y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** I ymateb i APCE gyda'r sylwadau a phryderon isod
-A fydd y tai sydd yn rhan o'r datblygiad yn fforddiadwy i drigolion lleol? Nid oes tai fforddiadwy yn rhan o'r cynllun
-Diffyg llwybr droed ar Ffordd y Felin - pryder ynghylch diogelwch cerddwyr gyda mwy o fodurwyr yn defnyddio'r ffordd
-Angen rhoi sylw i fynediad at Ffordd y Felin ar y gyffordd gyda'r A493 - h.y. diogelwch defnyddwyr yr A493 a Ffordd y Felin
-Nid oes anghenion lleol am 15 o dai yn y pentref, gyda nifer o dai ar werth yn y pentref
-Gwrthwynebiad yn lleol i'r datblygiad
-Y cynllun arfaethedig yn gor-ddatblygu ar y safle
-Colli darn o dir gwyrdd yn y pentref

Dychwelodd y Cynghorydd Geraint Edward i'r ystafell

12. Llywodraeth Cymru - Concrid Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC):

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Nid yw'r cyngor yn berchen ar adeilad concrid, gyda'r Pafiliwn wedi ei wneud gyda brics.

13. Cyngor Gwynedd - Etholiadau - Holiadur Cymunedau:

Y Cwestiynau
-Enw y person neu grŵp sydd yn ymateb - ATEB - Cyngor Cymuned Bryncrug
-Cymuned dan sylw - ATEB - Cyngor Cymuned Bryncrug
-Oes unrhyw faterion sydd angen sylw mewn perthynas â ffiniau presennol y gymuned - ATEB - Na
-Ydych yn hapus gyda'r nifer o gynghorwyr ar y Cyngor Cymuned - ATEB - Ydw
-Os na, beth sydd angen ei wella - ATEB - ddim yn berthnasol
-Ydych chi'n hapus a'r wardiau cyfredol - ATEB - Nid oes wardiau
-Os na, beth sydd angen ei newid - ATEB - ddim yn berthnasol

**PENDERFYNIAD:** I ymateb yr holiadur fel sydd wedi ei nodi uchod.

14. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn - Afon Fathew/pryder am lifogydd - diweddariad:

Nid oedd diweddariad.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

15. Ysbyty Tywyn a'r Cylch – cau ward cleifion mewnol dros dro - diweddariad:

Nododd y Clerc bod e-bost wedi ei dderbyn gan grŵp ymgyrchu lleol yn cyflwyno cais i annerch y cyngor.

Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Bethan Lawton:
-Yn parhau i gael cyfarfodydd misol gyda'r Bwrdd Iechyd

-O wythnos nesaf ymlaen, budd yr uned mân-anafiadau ar agor pum diwrnod yr wythnos

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

16. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd bod y Clwb Pêl-droed wedi clirio ei ddyled am ddefnydd o'r cae a'r Pafiliwn ond bod anfoneb arall angen ei hanfon am wyth gem.

Adroddwyd y canlynol:
-Y tyllau ymochel ar ochr y cae wedi cael sylw gan y clwb pêl-droed
-Angen cadw llygaid ar y siglen nyth

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y dylid o hyn ymlaen anfonebu'r Clwb Pêl-droed yn fisol, gan roi 30 diwrnod fel telerau talu
Y dylid rhoi manylion banc y cyngor ar waelod pob anfoneb sydd yn cael ei anfon i'r Clwb Pêl-droed

17. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol:
-Dŵr Cymru wedi edrych ar y coed
-Bydd CNC yn cynnal arolwg o'r afon ym mis Medi
-Wedi mynychu cyfarfod ble 'roedd deintyddiaeth yn cael ei drafod a chafwyd wybod bod y gwasanaeth yn methu denu deintyddion i'r ardal
-Gwair heb ei dorri yn y pentref
-Ffordd A487 yn cael ei gau ym mis Chwefror 2024 ger Machynlleth er mwyn gosod pwmp dŵr. Nid oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn am amser agor y bont newydd
-Rheilffordd Talyllyn yn cwblhau gwaith ym mis Hydref a Thachwedd

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

18. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd llygredd carthffosiaeth.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Dŵr Cymru er gofyn pam bod y bibell all-lif yn llifo'n gyson o waith carthffosiaeth Bryncrug i'r afon Dysynni? Gan nodi bod preswylwyr wedi adrodd bod arogl carthffosiaeth. I ofyn sawl gwaith y mae dŵr sydd heb ei drin wedi ei ollwng i'r afon a beth oedd y rheswm dros ryddhau'r dŵr?

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:30pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................